PA54 Cymwysterau yng Nghymru

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Absenoldeb Disgyblion

Ymateb gan Cymwysterau yng Nghymru

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee
Pupil absence

Evidence from Qualification Wales

---

Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad pwysig hwn ar absenoldeb disgyblion.

Mae materion absenoldeb disgyblion a'r effaith ar ddysgu plant a phobl ifanc a lles ehangach wedi bod yn ddadl hirsefydlog. Mae adroddiadau blaenorol a gyhoeddwyd gan Estyn wedi tynnu sylw at y gydberthynas sydd gan absenoldeb o safle'r ysgol ar berfformiad addysgol[1]. Er enghraifft, cyn y pandemig, dim ond tua dwy ran o bump o ddisgyblion a gollodd rhwng 10 ac 20% o amser ysgol a gyflawnodd 5 TGAU da gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg. Ategir y gydberthynas hon ymhellach gan ddangosyddion Cyfnod Allweddol 4 yn ôl blwyddyn a chyfraddau absenoldeb a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru[2]. Er bod achosion cyrhaeddiad is yn gymhleth, mae absenoldeb uwch o'r ysgol yn annhebygol o fod o fudd i ddysgu yn gyffredinol.

Er gwaethaf ymdrechion ysgolion a cholegau i ddarparu dysgu o bell a sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â nhw, rydym wedi clywed bod y pandemig wedi arwain at fwy o faterion yn ymwneud ag absenoldeb. Gwyddom fod ysgolion a cholegau wedi gweithio'n ddiflino i ymateb i'r heriau anodd a digynsail hyn a'u bod yn parhau i ddelio ag amhariadau. Gwyddom hefyd o wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru am bresenoldeb disgyblion yn ystod y pandemig[3] fod absenoldeb uwch o'r ysgol eleni ymhlith grwpiau blwyddyn cymwysterau. Drwy gydol y cyfnod hwn, ein blaenoriaeth fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau fu sicrhau system deg ar gyfer mesur cyrhaeddiad dysgwyr ac mae'n parhau i fod.

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gennym i'w chwarae wrth gyfrannu at gynllun adfer COVID-19 addysg Llywodraeth Cymru[4], ac yn cefnogi'r strategaethau a

---

[1] Cynnydd mewn lefelau presenoldeb ysgolion uwchradd ond angen gwelliant o hyd | Estyn (llyw.cymru)
[2] Dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 yn ôl blwyddyn a chyfraddau absenoldeb (llyw.cymru)
[3] Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 6 Medi 2021 i 10 Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU
[4] Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr [HTML] | LLYW.CYMRU

argymhellir ar gyfer gwella presenoldeb fel y nodwyd yn yr adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan y llywodraeth – "Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion".

Yn ein hymateb i'r ymchwiliad hwn, rydym yn gwneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- mae'r amhariad helaeth ar addysgu a dysgu yn anochel wedi effeithio ar ddysgwyr. Mewn ymateb, ac yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, yn 2020 a 2021, gwnaethom roi trefniadau amgen ar waith a oedd yn caniatáu i ganlyniadau gael eu dyfarnu i ddysgwyr yn seiliedig ar farn eu hysgol neu goleg (canolfan). Roedd hyn yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen a pharhau â'u haddysg;
- gan gydnabod y cysylltiad sefydledig rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad, nodwn fod y duedd lle mae absenoldeb yn cynyddu wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol wedi parhau drwy'r pandemig, gyda'r rhan fwyaf o absenoldebau wedi'u cofnodi ym mlwyddyn 11;
- nid yw'r amhariad ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig wedi bod yn unffurf, felly bydd dysgwyr unigol wedi cael eu heffeithio'n wahanol, ac mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig wedi cael effaith fwy negyddol nag eraill;
- er y gall cymwysterau ac asesiadau gael effaith ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc, ac yn eu tro, dylanwadu ar eu hymgysylltiad a'u presenoldeb yn yr ysgol, byddai'n orsymleiddiad i wneud cysylltiad cryf iawn – mae'n debygol y bydd llawer o ffactorau'n effeithio ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Yn wir, rydym wedi clywed bod absenoldeb asesiadau arferol wedi bod yn destun pryder i lawer o ddysgwyr sy'n ofni nad yw eu graddau efallai'n dal y lefelau arferol o hygrededd;
- er mwyn helpu i leddfu pryderon dysgwyr, ac i gefnogi presenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr â'u haddysg, rydym wedi sefydlu, ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill, ystod o gyfathrebu cefnogol. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch '*Lefel Nesa / Power Up*'[5] sy'n darparu gwybodaeth ac adnoddau i baratoi dysgwyr ar gyfer arholiad neu asesiad, adnoddau adolygu ac awgrymiadau llesiant fel y gall dysgwyr gymryd y cam nesaf yn eu haddysg yn hyderus. Byddwn yn parhau i gefnogi dysgwyr fel hyn wrth i ni symud ymlaen i 2023;
- i gefnogi'r gwaith o baratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau yn 2023, ac wrth i ni barhau â'r daith tuag at safonau cyn y pandemig, bydd gwybodaeth yn cael ei ddarparu ymlaen llaw i helpu ysgolion a dysgwyr i ganolbwyntio ar bynciau adolygu;

---

[5] Cymwysterau Cymru / Lefel Nesa (qualificationswales.org)

- bwriedir i gyflwyniad y cwricwlwm newydd, ymhlith nodau eraill, wella profiadau dysgwyr: gobeithiwn y bydd hyn yn ei dro yn gwella presenoldeb disgyblion;
- dim ond rhan fach o'r system addysg yw cymwysterau, fel y system sy'n mesur cyrhaeddiad addysgol dysgwyr. Fodd bynnag, mae ganddynt rôl i'w chwarae. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd cymwysterau newydd gwneud i Gymru yn cael eu cynllunio yn y fath fodd fel ei bod yn fwy tebygol y bydd dysgwyr yn cael profiadau cadarnhaol o asesu, a'u bod yn helpu dysgwyr i ymgysylltu â'u dysgu a datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth; ac yn olaf,
- bydd ein gwaith o ail-lunio'r cynnig ehangach 14-16 yn cynnwys cymwysterau a fydd yn debygol o apelio'n arbennig at y dysgwyr hynny y mae eu presenoldeb yn tueddu i fod yn waeth. Bydd hyn, yn ein barn ni, yn chwarae rhan bwysig yn y tymor hwy o ran cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'r cwricwlwm, gan ddarparu profiad i ddysgwyr sy'n bwrpasol i anghenion a dyheadau'r dysgwr ac o ran ail-ymgysylltu â grwpiau penodol o ddysgwyr â'u haddysg.

Mae'n bwysig cydnabod bod presenoldeb gwael yn deillio o lawer o ffactorau cymhleth sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, teuluol, addysgol a phersonol. Er na all cymwysterau a'r system gymwysterau yn unig liniaru'r ffactorau hyn, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i'w hatal rhag ychwanegu anfantais neu waethygu anfanteision presennol[6], ac i wneud profiadau arholi ac asesu mor gadarnhaol â phosibl i ddysgwyr.

Ar yr un pryd, ni ddylem golli golwg ar ddiben sylfaenol cymwysterau. Mae cymwysterau'n nodi diwedd taith dysgwr drwy gyfnod penodol o'u haddysg gan ganiatáu iddynt ddangos y wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u hennill. Mae ganddynt hefyd gysylltiad â chanlyniadau addysgol yn gyffredinol drwy gymell system uwch a pherfformiad dysgwyr. Os bydd cyfraddau absenoldeb yn parhau i fod yn uchel yn y tymor hir, bydd hyn yn amlwg yn parhau i gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad y dysgwyr hynny yng Nghymru a gall gyfrannu at ganfyddiadau o safonau sy'n gostwng.

Hoffem ddiolch i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg]() am gynnal yr ymchwiliad hwn ar absenoldeb disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, a gobeithiwn fod y wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol.

[6] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cydraddoldeb---rheoli-effaith-pandemig-covid-19-ar-ddyfarnu-cymwysterau/

Ceir rhagor o wybodaeth fanwl am bob un o'r pwyntiau a godwyd uchod i'r aelodau mewn Atodiad i'r llythyr hwn. Pe bai angen rhagor o wybodaeth arnom, byddem yn fwy na pharod i ddarparu hyn i chi.

Rydym yn cefnogi'r Gweinidog yn ei alwad am ddull system gyfan o fynd i'r afael ag absenoldeb ysgol ac yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid eraill yn y dasg bwysig hon. Bydd gwella presenoldeb yn ei dro yn gwella deilliannau dysgwyr, gan gyfrannu at Gymru iachach, wydn a ffyniannus.

Yn gywir

Philip Blaker
**Prif Weithredwr**

# Atodiad 1

## Ymateb i Bandemig COVID-19

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ddarparu cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru. Arweiniodd at gau safleoedd ysgolion a cholegau (canolfan) a chanslo cyfres arholiadau 2020 a 2021.

Yn ystod y cyfnod digynsail hwn, ein blaenoriaeth fel y rheoleiddiwr annibynnol oedd i ddatblygu dulliau o ddyfarnu graddau a oedd mor deg â phosibl i bob dysgwr, gan gydnabod nad oedd unrhyw ddulliau di-risg, a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu galluogi i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu eu gyrfa.

Ar 18 Mawrth 2020[7], er mwyn helpu i frwydro yn erbyn lledaeniad y coronafeirws (COVID-19), cyhoeddodd gweinidog addysg Cymru ("y Gweinidog") y byddai ysgolion yn cau a chanslo cyfres arholiadau 2020. O ystyried yr amserlen cyn i'r gyfres arholiadau ddechrau, penderfynwyd mai'r unig opsiwn fyddai gofyn i ysgolion a cholegau ddarparu 'Graddau a Aseswyd gan y Ganolfan' ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, gan gydnabod y byddai hyn yn arwain at anghysondebau ar draws canolfannau, buom yn chwilio am broses i'w cymedroli a chynnal perthynas agos â safonau arholiadau. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddwyd adroddiad ystadegol[8] gennym gyda dadansoddiad manylach o effeithiau trefniadau haf 2020 ar gydraddoldeb.

Ym mis Rhagfyr 2020 oherwydd cynnydd yng nghyfraddau Covid a mwy o darfu, penderfynodd y Gweinidog ganslo arholiadau ar gyfer Ionawr a haf 2021. Yn unol â'r dull polisi a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ac argymhellion y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni (DDAG), penderfynwyd y byddai dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch Cymeradwy yn cael eu dyfarnu drwy fodel 'Graddau a Bennir gan y Ganolfan', model oedd golygu y byddai graddau'n cael eu pennu gan ganolfannau yn seiliedig ar eu hasesiad eu hunain o waith dysgwyr. Ysgrifennom at y Gweinidog ym mis Chwefror 2021[9] yn nodi'r prif gyfyngiadau a'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r dull hwn.

Fel rhan o'n gwaith i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rydym wedi cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i lywio ein penderfyniadau polisi'n ymwneud â threfniadau amgen. Yr ydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gydymffurfio â chyfraith

---

[7] trefniadau-ar-gyfer-arholiadau-haf-2020-penderfyniadau-a-gymerwyd-yn-dilyn-yr-ymgynghoriad.pdf (qualificationswales.org)
[8] Dadansoddiad Effaith Cydraddoldeb Haf 2020: TGAU, Safon UG a Safon Uwch
[9] 20210223-response-to-ministerial-direction-cy.pdf (qualificationswales.org)

cydraddoldeb drwy ein Hamodau Cydnabod Safonol[10] ac yr ydym yn cefnogi cyrff dyfarnu drwy ddarparu dogfennau canllaw megis Mynediad Teg drwy Ddylunio[11] , sy'n nodi ffyrdd o fynd i'r afael â hygyrchedd o fewn o dyluniad asesu cymwysterau.

Wrth wraidd ein holl ystyriaethau mae tegwch i bob dysgwr, p'un a ydynt yn rhannu nodweddion gwarchodedig penodol ai peidio.

## Rôl cymwysterau a'u diben

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at rôl bwysig ysgolion a cholegau ym mywydau ein plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd. Serch hynny, mae'r amhariad a achoswyd gan y pandemig wedi bod yn hynod heriol iddynt.

Mae pob dysgwr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau yn ystod y pandemig wedi profi ansicrwydd ynghylch trefniadau asesu. Mae llawer wedi cael anhawster i symud ymlaen i'w camau nesaf oherwydd yr amhariadau ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb. Mae dysgwyr galwedigaethol mewn lleoliadau addysg bellach wedi cael eu amharu'n sylweddol ar gyrsiau, gan effeithio ar eu gallu i gwblhau elfennau ymarferol a seiliedig ar waith o'u cymwysterau.  Mae llawer o'n plant a'n pobl ifanc wedi'i chael yn anos rheoli eu hiechyd meddwl a'u lles, ac mae wedi taflu goleuni ar yr anghydraddoldebau ystyfnig sy'n dal i fodoli mewn rhannau o'n system addysg.

Mae'r cysylltiad rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad wedi'i hen sefydlu[12]. Oherwydd y cyswllt sefydledig hwn, mae gwella presenoldeb dysgwyr wedi bod yn nod polisi pwysig ers tro byd i lywodraethau olynol yng Nghymru, yn ogystal ag i awdurdodau lleol ac ysgolion unigol.

Dengys data fod absenoldeb yn cynyddu wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, sy'n aml yn cael effaith andwyol ar berfformiad mewn arholiadau ac asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (CA4). Mae'r duedd hon wedi parhau drwy'r pandemig, gyda'r rhan fwyaf o absenoldebau wedi'u cofnodi ym mlwyddyn 11. Gwyddom hefyd, hyd yn oed ar adegau arferol, fod dysgwyr difreintiedig sydd â nodweddion penodol yn fwy tebygol o fod â phresenoldeb gwael a chanlyniadau gwaeth. Er enghraifft, mae cyhoeddiad ystadegol Llywodraeth Cymru ar absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion[13] yn dangos bod absenoldeb yn uwch ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim cyn y pandemig. Yn syml iawn, mae'n gylch dieflig lle mai'r rhai sydd fwyaf angen cefnogaeth ysgolion yw'r rhai mwyaf tebygol o fod ag absenoldeb uwch.

Mae'r adroddiad annibynnol diweddar ar absenoldeb ysgol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[14] yn nodi bod presenoldeb gwael yn aml yn gysylltiedig ag 'ystod

[10] Amodau Cydnabod Safonol

[11] mynediad-teg-drwy-ddylunio.pdf (qualificationswales.org)

[12] Being Present: the Power of Attendance and Stability for Disadvantaged Pupils (nfer.ac.uk)

[13] Absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion: Medi 2018 i Awst 2019 | LLYW.CYMRU

[14] Adolygiad presenoldeb: goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion | LLYW.CYMRU

o faterion pryder, iechyd meddwl a lles' (tudalen 17). Gwyddom y gall arholiadau fod yn ffactor ychwanegol, er dros dro, sy'n achosi straen i rai dysgwyr.

Cyn y pandemig, roedd yr effaith ar iechyd meddwl a lles dysgwyr o sefyll arholiadau lluosog ac asesiadau cyfran uchel eraill o fewn cyfnod byr yn bryder. Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi dangos y gall newidiadau i asesiadau ac ansicrwydd hefyd achosi straen a phryder. Yn ôl ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) yn Lloegr, mae’r pandemig COVID-19 wedi amharu ar ddysgu pobl ifanc ac wedi effeithio'n andwyol ar eu hiechyd meddwl gan achosi 'ergyd ddwbl i'w rhagolygon addysgol'[15]. Fodd bynnag, mae lleihau effaith negyddol cymwysterau ac asesu newydd ar iechyd meddwl a lles dysgwyr yn dasg heriol a chymhleth.

Gwyddom nad cymwysterau ac asesiadau yw'r unig ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Mae unrhyw fath o asesiad yn cyflwyno rhywfaint o her. Gall wynebu'r her honno'n llwyddiannus helpu i feithrin hyder a gwydnwch dysgwr. Mae hefyd yn anodd gwahanu a nodi ffynonellau straen neu bryder arholiadau i ddysgwyr, yn enwedig mewn systemau addysg sy'n defnyddio asesiadau cyfran uchel ar gyfer amrywiaeth o fesurau atebolrwydd a pherfformiad.

Mae hefyd yn werth nodi bod rhai dysgwyr yn aml yn mynegi barn gadarnhaol ar asesu ac arholiadau gan eu bod yn cael eu hystyried yn darparu mesur cadarn a dibynadwy o gyrhaeddiad, gan leihau rhagfarn – gan ddarparu chwarae teg[16]. Mae gan eraill bryderon am 'imposter syndrome' ac na fyddai eu graddau'n cael eu gwerthfawrogi oni bai eu bod yn cael eu hasesu yn y ffordd y cynlluniwyd y cymhwyster. Mae ymchwil ddiweddar yn dangos mai dim ond effaith fach a gaiff iechyd meddwl dysgwyr ar gyrhaeddiad dilynol[17].

Gwyddom hefyd fod yr amhariad ar addysgu a dysgu wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig wedi effeithio ar ddysgwyr yn wahanol. Fel yr amlinellwyd yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb[18] a gyhoeddwyd, mae'n bosibl bod rhai dysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol gan yr amhariad hwn na dysgwyr eraill.

Mae ein dadansoddiad o ganlyniadau Haf 2020 a 2021 yn rhoi cipolwg diddorol:

- yn y rhan fwyaf o bynciau, mae bylchau cyrhaeddiad rhwng y rhywiau wedi bod o blaid merched yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf, roedd y bylchau cyrhaeddiad rhwng y rhywiau ar gyfer graddau 2020 (diwygiedig) yn tueddu i fod yn ehangach (yn fwy o blaid menywod) ar gyfer y graddau uchaf ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch ac yn

---

[15] NatCen Social Research
[16] ‘We don’t want to be known as the kids who didn’t do GCSEs’ (schoolsweek.co.uk)
[17] Full article: The power of positive emotions? The link between young people’s positive and negative affect and performance in high-stakes examinations (tandfonline.com)
[18] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cydraddoldeb---rheoli-effaith-pandemig-covid-19-ar-ddyfarnu-cymwysterau/

gulach (llai o blaid menywod) ar gyfer y graddau canol ar gyfer Safon Uwch. Fodd bynnag, nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc;
- roedd y bylchau cyrhaeddiad o ran cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer graddau 2020 (diwygiedig) yn tueddu i fod yn ehangach (mwy o blaid dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) ar gyfer y graddau uchaf ar gyfer TGAU ac UG ac yn gulach (llai o blaid dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) ar gyfer y graddau canol ar gyfer Safon Uwch, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc;
- roedd y bylchau cyrhaeddiad yn y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig ar gyfer graddau 2020 (diwygiedig) yn tueddu i fod yn ehangach (yn fwy o blaid dysgwyr heb ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig) ar gyfer y graddau uchaf ar gyfer TGAU ac UG, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y patrymau hyn yn gyson ar draws pob pwnc;
- mae cymharu graddau 2020 (diwygiedig) â 2019 yn ôl grŵp ethnig eang yn dangos cynnydd mewn canlyniadau ar gyfer pob grŵp ethnig eang ar gyfer y graddau uchel a chanol ar gyfer pob math o gymhwyster
- yn 2021, o'i gymharu â'r rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM), cyflawnodd dysgwyr nad oeddent yn gymwys 11.5pp yn fwy o raddau A*, i fyny 2.8pp o 2020 ac i fyny 6.2pp o 2019. Gwelwyd patrwm tebyg yn A*-A. Yn A*-C ehangodd y bwlch cyrhaeddiad yn 2021 ar ôl culhau yn 2020;
- yn 2021, o'i gymharu â dynion, cyflawnodd menywod 10.7pp yn fwy o raddau A, i fyny o 9.5pp yn 2020 ac i fyny o 7.4pp yn 2019.

Wrth edrych ar y data hwn, mae'n bwysig nodi bod canlyniadau 2020 a 2021 yn dod o wahanol drefniadau asesu a dyfarnu ar ôl canslo arholiadau. O'r herwydd, nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â'i gilydd, na blynyddoedd lle cynhaliwyd arholiadau neu asesiadau cenedlaethol safonedig eraill.

Nid yw'n bosibl datgysylltu effaith gwahanol drefniadau asesu a dyfarnu (gan gynnwys canlyniadau uwch) ac effeithiau pandemig ar fylchau cyrhaeddiad, nac ychwaith i drefniadau asesu cymwysterau fynd i'r afael â neu ddatrys anfantais a achosir gan ffactorau eraill. Er enghraifft, efallai bod rhai dysgwyr wedi cael mynediad mwy cyfyngedig at adnoddau ar-lein neu lefelau is o ymgysylltu a chymorth wrth ddysgu gartref o gymharu â dysgwyr eraill.

## Dychwelyd i arholiadau yn 2022 a chefnogi dysgwyr

Ffocws Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen - fel y disgrifir yn eu cynllun adfer Covid-19 Addysg, Adnewyddu a Diwygio – yw gwneud y mwyaf o ddysgu a lleihau amhariad.

Ar 25 Ionawr 2022, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai arholiadau ac asesiadau yn mynd rhagddynt eleni. Wrth wneud hynny, cydnabu mai dyma'r ffordd decaf o asesu dysgwyr o hyd, hyd yn oed yn yr amgylchiadau anodd hyn, a'i fod yn cynrychioli'r dull lleiaf aflonyddgar.

Er bod disgwyl o hyd i ganolfannau, lle bynnag y bo modd, gyflwyno'r fanyleb cymhwyster lawn i'w dysgwyr, i gefnogi penderfyniad y Gweinidog a helpu i leihau effaith yr amhariad ar amser addysgu a dysgu wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig, roedd yn ofynnol i gyrff dyfarnu addasu'r gofynion asesu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch Cymeradwy a chymwysterau galwedigaethol a wnaed ar gyfer Cymru. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau i gynnwys arholiadau yn ogystal â gwybodaeth ymlaen llaw am feysydd arholiad, fel y gallai asesiadau fod mor deg â phosibl, a'u bod yn galluogi athrawon i ganolbwyntio eu hamser ar y meysydd dysgu allweddol.

Wrth i arholiadau ddychwelyd yn 2022, rydym wedi ystyried pa ddull y dylid ei ddefnyddio i raddio, a pha fesurau y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi carfan 2023 o ddysgwyr. Er mwyn adlewyrchu'r ffaith ein bod mewn cyfnod adfer pandemig a bod addysg dysgwyr wedi cael ei amharu, penderfynwyd trin 2022 fel blwyddyn bontio. Felly, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu anelu at ganlyniadau yn haf 2022 i adlewyrchu'n fras bwynt hanner ffordd rhwng 2021 a 2019.

Caiff ein penderfyniad i wneud hynny ei lywio gan benderfyniadau a wneir mewn rhannau eraill o'r DU a'r angen i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â dysgwyr mewn mannau eraill, yn enwedig lle defnyddir cymwysterau i symud ymlaen i sefydliadau addysg uwch.

Er y byddwn yn parhau â'r daith tuag at safonau cyn y pandemig y flwyddyn nesaf, i gefnogi paratoad dysgwyr ar gyfer cwblhau cymwysterau, bydd gwybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu a'i rhyddhau cyn pob cyfres arholiadau[19]. Er y dylid addysgu cynnwys pwnc y fanyleb gyfan o hyd, bydd Gwybodaeth Ymlaen Llaw yn rhoi syniad o'r pynciau, y themâu a'r cynnwys y gall dysgwyr eu disgwyl yn eu harholiadau fel y gallant ganolbwyntio eu hadolygu. Mae'r mesurau hyn yn drosiannol ac yn arwydd o'n taith yn ôl i drefniadau asesu cyn y pandemig.

Gwyddom y bydd y penderfyniad a wneir ar y dull o raddio TGAU, UG a Safon Uwch yn cael effaith ar rai cymwysterau galwedigaethol a ddefnyddir at ddibenion tebyg, gan gynnwys symud ymlaen i astudio pellach. Felly, rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ystyried y dull a ddefnyddir ar gyfer y cymwysterau hyn wrth bennu safonau mewn cymwysterau galwedigaethol eraill fel nad yw dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hyn o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion.

Yn dilyn dwy flynedd o drefniadau asesu a dyfarnu amgen, mae'n ddealladwy bod dysgwyr wedi bod yn bryderus ynghylch dychwelyd i arholiadau. Er mwyn helpu i leddfu'r pryderon hynny, ac i gefnogi presenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr, rydym wedi sefydlu ystod o gyfathrebu i'w cefnogi. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill yn y system addysg, gan gynnwys Gyrfa Cymru, E-sgol, CBAC a Llywodraeth Cymru, i sefydlu'r ymgyrch 'Lefel Nesa / Power

---

[19] 220513-qw-letter-to-centres-cym.pdf (qualificationswales.org)

Up'[20]. Mae'r ymgyrch hon wedi darparu gwybodaeth ac adnoddau ynghylch yr hyn y gall dysgwyr ei ddisgwyl mewn arholiad neu asesiad, adnoddau adolygu ac awgrymiadau llesiant fel y gall dysgwyr gymryd y cam nesaf yn eu haddysg yn hyderus.

Byddwn yn parhau i gefnogi dysgwyr mewn ffordd debyg wrth i ni edrych ymlaen at arholiadau ac asesiadau yn 2023.

## Sut y gall y Cwricwlwm newydd i Gymru a'n gwaith wrth ailgynllunio cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed helpu i wella presenoldeb

Mae'r newid sylweddol yn y dull gweithredu a fwriadwyd gan y Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi cyfle cyffrous i ysgolion deilwra eu cwricwlwm ('cwricwlwm ysgol') a dewis pa weithgareddau a phynciau y maent yn eu haddysgu i gefnogi eu dysgwyr a chreu gwell profiad dysgu i ddisgyblion.

Gwyddom fod ysgolion a oedd wedi llwyddo i wella presenoldeb yn y gorffennol wedi rhoi sylw arbennig i'w cynnig cwricwlwm, gyda'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn dod o hyd i'r hyn a gynigir yn ddiddorol ac yn berthnasol iddynt. Er y dylai mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol dysgwyr ar ôl y pandemig, ac ailsefydlu, addasu ac ymestyn strategaethau cyn y pandemig barhau i fod yn flaenoriaeth, dylid hefyd ystyried cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel sbardun allweddol ar gyfer newid o ran gwella profiadau dysgwyr, ac yn ei dro gwella presenoldeb disgyblion.

Mae sicrhau bod pob cwricwlwm ysgol yn berthnasol ac yn hygyrch i bob dysgwr, a'i fod yn ennyn diddordeb ac yn eu cefnogi i fod â dyheadau uchel ar gyfer eu haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol yn hollbwysig. Fodd bynnag, gwyddom y bydd cyflawni hyn yn golygu mabwysiadu dull gweithredu system gyfan.

Er mai dim ond rhan fach o'r system addysg yw cymwysterau, wrth gwrs – rhan o'r jig-so sy'n canolbwyntio ar fesur, mae ganddynt rôl i'w chwarae.

Ein cyfrifoldeb ni yw cytuno sut y dylai cymwysterau newid i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd, helpu i wireddu ei uchelgais a diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol. Ein gweledigaeth yw i ddysgwyr ddilyn cymwysterau sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, ac fel rhan o'n dull cyd-adeiladu o ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o gymwysterau 14-16, rydym wrthi'n edrych ar ba gynnwys y maent yn eu cwmpasu a sut y dylid eu hasesu yn y dyfodol.

Rydym wedi clywed gan lawer o weithwyr addysgu proffesiynol a sylwebyddion addysgol am eu hawydd i weld, yn y tymor byr a'r tymor hir, ddull mwy cytbwys ac amrywiol o asesu sy'n cynnwys asesiadau athrawon ac arholiadau, yn enwedig gan gydnabod bod yn well gan wahanol ddysgwyr wahanol fathau o asesu.

[20] Cymwysterau Cymru / Lefel Nesa (qualificationswales.org)

Wrth ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn, rydym hefyd yn defnyddio'r gwersi yr ydym wedi'u dysgu o brofiad y pandemig. Mae'r profiad hwn wedi ein harwain i ofyn cwestiynau sylfaenol am ddyluniad yr addysgu, y dysgu a'r asesu, a'r ffordd y caiff cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu. Mae'r pandemig hefyd wedi newid canfyddiadau o gymwysterau ac wedi tynnu sylw at yr angen am fwy o gadernid a gwydnwch yn y system.

Rydym am i gymwysterau newydd gwneud i Gymru gael eu cynllunio yn y fath fodd fel ei bod yn fwy tebygol y bydd dysgwyr yn cael profiadau cadarnhaol o asesu. Dylai asesu wedi'i gynllunio'n dda helpu dysgwyr i ymgysylltu â'u dysgu a datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth.  Gellir gwneud hyn er enghraifft, drwy sicrhau bod y dull asesu yn briodol i'r dysgu sy'n cael ei ddangos, drwy gynnwys cymysgedd o wahanol ddulliau asesu o fewn cymhwyster i ddarparu ar gyfer gwahanol ddewisiadau, a thrwy ystyried y cyd-destun ar gyfer cynnal asesiadau. Mae atebion eraill sy'n cael eu hystyried yn weithredol yn cynnwys llai o asesu cyffredinol, cynnwys pwnc mwy deniadol a mwy o hyblygrwydd a dewis lle bo hynny'n bosibl.

Yn seiliedig ar ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid drwy'r broses gyd-adeiladu, credwn y bydd yr ystyriaethau hyn yn arwain at newidiadau pendant yng nghynllun cymwysterau yn y dyfodol, gan gynnwys dulliau asesu mwy amrywiol a chynnydd yn yr asesiadau di-arholiad (NEA).

Nododd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar wella presenoldeb yn yr ysgol fod angen "gwneud y profiad dysgu yn werth chweil a pherthnasol i ddysgwyr hŷn yng nghyfnod allweddol 4 ble mae eu presenoldeb yn tueddu i fod yn waeth ac yn fwy tebygol o ymddieithrio", ac y dylai "cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn arwain at ddealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr a helpu i nodi materion cyn iddynt waethygu a dylai hefyd helpu gydag ymyrraeth gynnar".

I'r perwyl hwnnw, ystyriwyd bod datblygu ac ariannu cyfres o opsiynau galwedigaethol a ddeellir yn dda yn hanfodol i fynd i'r afael nid yn unig â heriau presenoldeb tymor byr i'r myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf, ond hefyd fel strategaeth hirdymor bwysig sy'n cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'r cwricwlwm a'r diwygiadau cysylltiedig i arferion cymwysterau ac arholiadau.

Credwn y dylai'r ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gellir eu cymryd yn 16 oed gynnig rhywbeth i bawb a darparu ar gyfer anghenion pob dysgwr. Mae hyn yn ganolog i'n gweledigaeth o gynnig cymwysterau sy'n paratoi pobl ifanc 16 oed ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

Ar ba bynnag lefel y mae dysgwr yn gweithio, gall cymwysterau fod yn ffordd ddefnyddiol o gydnabod cyrhaeddiad, a rhoi'r sylfaen a'r hyder iddynt symud ymlaen i ddysgu neu waith pellach. Dylai pob dysgwr allu astudio cymwysterau a fydd yn eu hymgysylltu yn eu dysgu, eu helpu i wneud cynnydd ystyrlon, dangos tystiolaeth o'u cyflawniadau, a dangos yr hyn y maent yn barod i fynd i'r afael ag ef nesaf.

Er y bydd y cymwysterau a fydd yn ymddangos fel rhan o gynnig 14-16 ehangach wedi'i ail-lunio ar gael i ddysgwyr o bob gallu, bydd llawer o'r rhain yn debygol o apelio'n arbennig at y dysgwyr hynny a fyddai fel arall wedi ymddieithrio. Bydd y gwaith hwn, yn ein barn ni, yn sicr yn chwarae rhan bwysig yn y tymor hwy o ran cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'r cwricwlwm, ac yn darparu profiad i'r dysgwr sy'n bwrpasol i anghenion a dyheadau'r dysgwr ac wrth ail-ymgysylltu â grwpiau o ddysgwyr gyda'u haddysg.